Cartrefi Cymunedol Cymru Cynhadledd Arweinyddiaeth

#chcinnovate17

chcymru.org.uk/events

Cynhadledd Arweinyddiaeth, Cartrefi Cymunedol Cymru
Stadiwm Dinas Caerdydd | 23 Mehefin 2017

09:00 AM	**Cofrestru**

09:30 AM	**Croeso'r Cadeirydd**

09:40 AM	**Darparu'r gweithlu ar gyfer y dyfodol**
	Matthew Taylor, Prif Swyddog Gweithredol, RSA
	Ricoh Suite
	Mae Matthew yn arwain adolygiad annibynnol ar arferion cyflogaeth modern ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Beth mae'r canfyddiadau'n ei olygu i'r sector a beth sydd angen i ni wneud yn awr i sicrhau ein bod yn darparu ein gweithlu ar gyfer y dyfodol. *Bu Matthew Taylor yn Brif Weithredydd yr RSA ers 2006. Cyn dod yn Brif Weithredydd yr RSA, bu Matthew yn Brif Gynghorydd Strategaeth Wleidyddol i'r Prif Weinidog. Bu'n Gyfarwyddydd y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus rhwng 1999 a 2004. Mae wedi ysgrifennu nifer fawr o erthyglau ac yn aelod rheolaidd o banel Moral Maze ar Radio 4.*

10:30 AM	**Y wyddoniaeth tu cefn i arweinyddiaeth**
	Paul Chudleigh, Insight (Gwahoddwyd)
	Mae Paul, sydd â chymwysterau Seicolegydd Busnes, yn arbenigo ym meysydd asesu a dethol, hwyluso, datblygu sefydliadol, datblygu tîm a hyfforddi. Mae wedi gweithio gyda llawer o gyfarwyddwyr ac uwch reolwyr - yn unigol ac mewn timau - gan gael enw da am sicrhau canlyniadau ymarferol, sydd â ffocws diriaethol. Gweithiodd yn llwyddiannus gyda sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ac mae'n mwynhau perthynas hirdymor gyda'i gleientiaid.
11:15 AM	**Egwyl Lluniaeth**
11.45 PM	**Sut mae arweinwyr yn newid diwylliant drwy gamau bach**
	Dave Snowden, prif swyddog gwyddonol Cognitive Edge, *Prifysgol Bangor*
	Sut ydych yn gweithio o ble ydych, nid lle yr hoffech fod? Drwy newid camau bach. Roedd Dave yn flaenorol yn gweithio i IBM lle'r oedd yn Gyfarwyddwr Sefydliad Rheoli Gwybodaeth a sefydlodd Ganolfan Cynefin ar Gymhlethdod Sefydliadol; yn ystod y cyfnod hwnnw cafodd ei ddewis gan IBM fel un o chwe meddyliwr mae galw mawr amdanynt ar gyfer ymgyrch hysbysebu fyd-eang. Cyn hynny bu'n gweithio mewn amrywiaeth o swyddi strategol a rheoli yn y sector gwasanaeth.

12:30 AM	**Adeiladu Cydnerthedd drwy Arweinyddiaeth**
	Yr Athro Richard Davies, Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe
	Dewch i glywed gan Richard am strategaeth arweinyddiaeth Prifysgol Abertawe, yr hyn mae'n ei olygu'n ymarferol. Bu'r Athro Davies yn astudio Peirianneg yng Nghaergrawnt, ac enillodd PhD ym Mhrifysgol Bryste. Roedd ei benodiad academaidd cyntaf ym Mhrifysgol Bryste. Bu'n gweithio wedyn yn yr adran Cynllunio Dinas a Rhanbarthol yn Sefydliad Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru (UWIST), bellach Brifysgol Caerdydd. Fe'i penodwyd yn Athro Ystadegau Cymwysedig ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn 1989. Cafodd wedyn ei benodi'n gyfarwyddwr yr adran 5* hon, yn Ddeon cyfadran Gwyddorau Cymwysedig ac yna'n Ddirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Caerhirfryn.

1:15 PM	**Cinio**

2:15 PM	**Grymuso Menywod mewn Arweinyddiaeth**
	Sara Khan, Sylfaenydd Cyd Inspire
	Mae Sara Khan yn un o brif leisiau benywaidd Mwslimaidd ar atal eithafiaeth Islamaidd a hyrwyddo lleisiau dynol. Helpodd i gydsefydlu Inspire, menter anllywodraethol arloesol dan arweiniad menywod sy'n gweithio i atal eithafiaeth a gwahaniaethu ar sail rhyw. Maent yn grymuso menywod i gefnogi hawliau dynol a herio eithafiaeth a gwahaniaethu ar sail rhyw. Drwy rymuso menywod, nod Inspire yw

	creu newid cymdeithasol cadarnhaol gan arwain at Brydain fwy democrataidd, heddychlon a thecach. Mae menywod yn allweddol i ddatblygiad a ffyniant unrhyw gymdeithas.

3:30 PM	**Egwyl Lluniaeth**

4:00 PM	**Chwilio am dryloywder**
	Martyn Rhys Williams, Newyddiadurwr Ymchwiliadol ac awdur Parliament Cyf
	Martyn yw awdur Parliament Cyf. Yn ei lyfr mae'n annog sefydliadau i gynnal eu hymchwiliadau eu hunain ar gyfer tryloywder ac atebolrwydd - ydych chi'n barod ar gyfer yr her? Mae Martin Williams yn newyddiadurwr ymchwiliadol ar ei liwt ei hun. Ymddangosodd ei waith yn Private Eye, The Guardian, The Observer, The Independent a mannau eraill. Yn 2011 enillodd Martin fwrsariaeth Ymddiriedolaeth Scott The Guardian a bu'n astudio am MA mewn Newyddiaduraeth Papur Newydd ym Mhrifysgol City. Cyn hynny, astudiodd Hanes a Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerefrog.

4:15PM	**Tyfu eich cynnyrch eich hun: A yw'r Prif Swyddog Gweithredol nesaf yn yr ystafell?**
	Mae'r trosiant diweddar mewn Prif Swyddogion Gweithredol yn y sector wedi amlygu'r angen i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr yng Nghymru. Wrth i ni baratoi i lunio ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol dan y prosiect Gorwelion Tai, sut allwn ni wella cynllunio olyniaeth i ysbrydoli a thyfu arweinwyr y dyfodol?

5:15 PM	**Diwedd y gynhadledd**